# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER 5 EBRILL 2023 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid Hinsawdd), C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol), N. George (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), P. Leonard (Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), J. Simmonds (Aelod Cabinet Priffyrdd a Chludiant) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), E. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Pugh (Pennaeth Cyfathrebu), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd) E. Sullivan (Uwch-swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO**

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i’w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio ar gyfer trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i weld..

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – 22 MAWRTH 2023

Yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), gan ei bod wedi cael ei hepgor a chael gwared ar y Cynghorydd C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), oherwydd ei fod wedi ymddiheuro, oddi wrth restr y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod: -

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd tan 26 Gorffennaf 2023.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

## 5. ANGEN CYLLID - A469 TROEDRHIW'R-FUWCH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyllid cyfalaf o £935,000 i ganiatáu symud ymlaen a datblygu'r cynllun manwl a'r amcangyfrifon cyllidebol ar gyfer cam nesaf gwaith gwella priffordd yr A469 Troedrhiw'r-fuwch.

Nododd y Cabinet y problemau llithro hanesyddol yn yr ardal hon a oedd wedi gwaethygu yn ystod Storm Dennis. Roedd ymchwiliad safle helaeth wedi nodi nad oedd dyfnder a maint yr ardal aflonyddwch yn y tirlithriad mor fawr â'r hyn a ddangoswyd yn wreiddiol ac roedd datrysiad peirianyddol posibl wedi'i nodi, er na ellid ailagor y ffordd yn llawn heb waith adfer. Roedd angen cyllid bellach i symud y prosiect yn ei flaen, ac roedd cais i Gronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno a chytunwyd ar gymorth er nad oes swm penodol wedi'i gadarnhau.

Nododd y Cabinet natur gymhleth y ffawtlin naturiol hon a chroesawodd y cyfle i sicrhau datrysiad peirianyddol i'r plân llithro a oedd yn rhedeg ar draws y rhan hon o'r briffordd. Cydnabu'r Cabinet yr aflonyddwch sylweddol yr oedd y mater parhaus hwn yn ei achosi i drigolion, gwasanaethau cyfleustodau, ysgolion a busnesau lleol yn yr ardal a gofynnodd am eglurhad ynghylch sut y byddai'r gymuned yn cael ei hysbysu am gynnydd a sut y byddai effaith y gwaith adfer yn cael ei liniaru.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i bob cartref yn yr ardal, a byddai'r cylchlythyr hwn yn parhau i gael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu i sicrhau bod preswylwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn ystod pob cam o'r gwaith.

Teimlai'r Cabinet y byddai'r cyfathrebu rheolaidd hwn yn hanfodol, o ystyried hyd yr amser y bu'r materion hyn yn bresennol a maint y gwaith sydd ei angen i ddod â'r cyswllt priffyrdd mawr hwn yn ôl i ddefnydd llawn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a, drwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar cytunwyd yn unfrydol i hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog fod:-

1. Cymeradwyo'r cyllid o £935 mil o'r Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn wedi'u Clustnodi i alluogi'r prosiect i barhau i symud ymlaen yn gyflym yn 2023/24 i

sicrhau bod gwaith monitro ychwanegol yn cael ei wneud a bod gwaith dylunio wedi'i gwblhau.

2. Pe baï'r cynnig grant am £835 mil yn cael ei gymeradwyo yn ystod yr wythnosau/misoedd nesaf, byddai'r £835 mil yn cael ei glustnodi fel arian cyfatebol ar gyfer y cais nesaf i'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth ar gyfer adeiladu ddiwedd 2023/24).

3. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet eu hystyried unwaith y bydd y dyluniad wedi symud ymlaen yn ddigonol i hysbysu'r rhaglen waith ac i ddiweddaru'r Cabinet ar unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen waith honno.

4. Mae swyddogion yn datblygu cynllun cyfathrebu manwl i sicrhau bod trigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys a'u hysbysu'n llawn drwy gydol datblygiad a gweithrediad y prosiect hwn.

## 6. CYNNIG RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY, BAND B – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YSGOL TRINITY FIELDS

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Cabinet, 19 Ebrill 2023.

## 7. STRATEGAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod Y Cabinet yn y dyfodol.

Terfynwyd y cyfarfod am 13:24.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhalir ar 19 Ebrill, 2023.

______________________

CADEIRYDD